Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Cyngor bwrdeistref sirol Pen-y-bont ar ogwr

# Polisi Gwarcheidiaeth arbennig

# Tachwedd 2020

Y Gyfarwyddiaeth Les

| | |
|---|---|
| Enw a Lleoliad y Ddogfen | Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig |
| Awdur | Alex Davies<br>**Rheolwr Tîm - Lleoliadau**<br>**Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles / Social Services and Wellbeing Directorate**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr / Bridgend County Borough Council<br>**Ffôn / Phone:** (01656) 642367<br>**E-bost / E-mail:** Alex.Davies@bridgend.gov.uk<br>**Gwefan / Website:** www.bridgend.gov.uk |
| Perchennog y Ddogfen | Laura Kinsey<br>Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Blant / Head of Children's Social Care<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr / Bridgend County Borough Council<br>Ffôn / Phone: (01656) 642314<br>E-bost / E-mail: Laura.Kinsey@bridgend.gov.uk<br>Gwefan / Website: www.bridgend.gov.uk |
| Dyddiad Adolygu | Dylid adolygu'r ddogfen hon bob tair blynedd o leiaf ar ôl ei dyddiad cymeradwyo, ac ni ddylai'r adolygiad nesaf gael ei gynnal yn hwyrach na mis Rhagfyr 2023. Gellir cynnal adolygiadau o fewn y cyfnodau hyn fel bo'r angen. |
| Hygyrchedd | Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. |

## Diweddariadau, Adolygiadau a Diwygiadau

| Fersiwn | Manylion y Newid | Dyddiad |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

## Mynegai

1. Polisi Gwarcheidiaeth Arbennig - Cefndir ........ 4
2. Cymhwystra ........ 5
3. Ceisiadau ........ 6
4. Yr awdurdod lleol yn rhoi adroddiad i'r llys ........ 7
5. Ceisiadau gwarcheidiaeth arbennig yng nghyd-destun cynllunio sefydlogrwydd i blant sy'n derbyn gofal ........ 8
6. Ceisiadau gwarcheidiaeth arbennig yng nghyd-destun cynllunio sefydlogrwydd i blant nad ydynt yn derbyn gofal ........ 9
7. Gwasanaethau Cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig ........ 9
8. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ........ 13
9. Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol dros lwfansau Gwarcheidiaeth Arbennig ........ 14
10. Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig a Gadael Gofal ........ 15
11. Cwynion a Sylwadau ........ 18
12. Atodiadau: ........ 19

# 1. Polisi Gwarcheidiaeth Arbennig - Cefndir

1.1 Cyflwynwyd Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig yn sgil Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002. Yn dilyn hynny, cyflwynwyd Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) 2005 a ddiwygiwyd gan Reoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) (Diwygio) 2018 a Chod Ymarfer ar weithredu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn cysylltiad â Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig

1.2 Mae Gwarcheidiaeth Arbennig yn cynnig mwy o sicrwydd na maethu hirdymor ond nid yw'n torri'r cysylltiad cyfreithiol yn llwyr â theulu genedigol y plentyn fel sy'n digwydd drwy orchymyn mabwysiadu

- Yn ddarostyngedig i unrhyw orchymyn arall sydd mewn grym mewn perthynas â'r plentyn o dan Ddeddf Plant 1989, mae Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig yn rhoi hawl i'r Gwarcheidwad Arbennig, arfer cyfrifoldeb rhiant ar draul eraill sydd â chyfrifoldeb rhiant (ac eithrio Gwarcheidwad Arbennig arall).
- Yn wahanol i fabwysiadu, o dan Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig, mae'r rhieni biolegol yn parhau i fod yn rhieni cyfreithiol y plentyn ac yn cadw cyfrifoldeb rhiant, er bod eu gallu i arfer y cyfrifoldeb hwnnw yn gyfyngedig iawn.
- Y bwriad yw y bydd gan y Gwarcheidwad Arbennig gyfrifoldeb clir dros yr holl benderfyniadau beunyddiol ynghylch gofalu am y plentyn neu'r unigolyn ifanc, a thros unrhyw benderfyniadau eraill ynghylch eu magwraeth, ee, eu haddysg.
- Caiff Gwarcheidwad Arbennig arfer cyfrifoldeb rhiant ar draul eraill sydd â chyfrifoldeb rhiant, fel y rhieni, a heb fod angen ymgynghori â hwy, ac eithrio ambell sefyllfa.
- Un o brif bwrpasau Gwarcheidiaeth Arbennig yw bodloni angen y plentyn am berthynas gyfreithiol sicr â'i ofalwr. I'r perwyl hwn, os gwneir Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig, ni fydd y plentyn mwyach yn cael ei ystyried yn blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol.

1.3 Ynghyd â'r trefniadau ar gyfer y Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig ceir cyfrifoldebau ychwanegol i awdurdodau lleol yn gysylltiedig ag asesu, cynllunio, darparu ac adolygu gwasanaethau cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig, gan gynnwys cymorth ariannol. Mae plentyn a oedd yn derbyn gofal yn union cyn gwneud Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig, a fyddai'n cael ei ystyried yn unigolyn ifanc categori 3 yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014) yn parhau i fod yn gymwys i dderbyn cymorth fel unigolyn sy'n gadael gofal.

## 2. Cymhwystra

2.1 Cyn i'r awdurdod lleol gymryd unrhyw gamau i gefnogi cais am Warcheidiaeth Arbennig, mae'n rhaid iddo yn gyntaf sicrhau bod y sawl sy'n dymuno bod yn Warcheidwad/Warcheidwaid Arbennig yn gymwys. Gall llys wneud Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig yn gysylltiedig â phlentyn ar gais un o'r canlynol:

- Unrhyw warcheidwad sydd gan y plentyn
- Gofalwr maeth awdurdod lleol y mae'r plentyn wedi bod yn byw gydag ef/hi am flwyddyn yn union cyn cyflwyno'r cais.
- Unrhyw un sydd wedi'i enwi ar Orchymyn Preswylio neu Drefniadau Plentyn fel unigolyn y mae'r plentyn i fod i fyw gydag ef, neu a chanddo gydsyniad pawb y mae Gorchymyn Preswylio neu Drefniadau Plentyn mewn grym ar eu cyfer.
- Unrhyw un y mae'r plentyn wedi byw gydag ef am dair o'r pum mlynedd diwethaf.
- Perthynas i'r plentyn y mae'r plentyn wedi byw gydag ef/hi am flwyddyn o leiaf **yn union** cyn y cais
- Pan fo'r plentyn yng ngofal awdurdod lleol, unrhyw un y mae'r awdurdod lleol yn cydsynio iddo/iddi
- Unrhyw un y mae pawb â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn yn cydsynio iddo.
- Unrhyw un, gan gynnwys y plentyn, sydd â chaniatâd y llys i wneud cais

2.2 Gall y llys hefyd wneud Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig mewn unrhyw achos teuluol sy'n ymwneud â lles y plentyn os yw o'r farn y dylid gwneud gorchymyn. Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed os na chyflwynwyd cais, ac yn cynnwys achosion mabwysiadu.

2.3 Gall unigolyn wneud ceisiadau am orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig neu gall dau neu fwy o bobl wneud cais ar y cyd. Nid oes angen i ymgeiswyr fod yn briod nac mewn partneriaeth sifil â'i gilydd. Mae'n rhaid i warcheidwaid arbennig fod yn 18 oed neu'n hŷn. Ni chaiff rhieni na llys-riant plentyn fod yn Warcheidwad Arbennig i'r plentyn hwnnw.

2.4 Ym mhob sefyllfa, bydd angen i'r awdurdod lleol gyflwyno adroddiad i'r llys. Mae'n rhaid i'r llys a'r awdurdod lleol ystyried yr holl ystod o opsiynau sydd ar gael.

## 3. Ceisiadau

3.1 Mae'n rhaid i ymgeisydd roi tri mis o rybudd ysgrifenedig i'r awdurdod lleol sydd yn gofalu am y plentyn, (yn achos plentyn sy'n cael ei faethu) neu i'r awdurdod lleol y mae'r ymgeisydd yn preswylio ynddo fel arfer (os nad yw'r plentyn yn derbyn gofal) o'i fwriad i wneud cais am Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig.

3.2 Yr unig eithriad i hyn yw pan fo gan unigolyn ganiatâd y llys i wneud cais cystadleuol am Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig lle bo cais am Orchymyn Mabwysiadu eisoes wedi'i wneud. Gwneir hyn er mwyn atal y cais cystadleuol rhag achosi oedi i wrandawiad y gorchymyn mabwysiadu.

## 4. Yr awdurdod lleol yn rhoi adroddiad i'r llys

4.1 Yn y cyfnod rhybudd o dri mis, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gwblhau adroddiad fel y rhagnodir, neu drefnu i rywun arall wneud hynny ar ei ran. Yn atodlen Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) 2005, Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) (Diwygio) 2018 a'r Cod Ymarfer Gwarcheidiaeth Arbennig, manylir ar yr hyn y dylai'r adroddiad ei gynnwys.

4.2 Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gwblhau adroddiad i'r llys ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant eraill. Mae'r adroddiad yn trafod yr holl wybodaeth angenrheidiol am y plentyn, teulu'r plentyn, dymuniadau a theimladau'r plentyn, y darpar Warcheidwad Arbennig, gwybodaeth am yr awdurdod lleol a gwblhaodd yr adroddiad ac argymhellion ynghylch a ddylid gwneud gorchymyn, trefniadau cyswllt a gwasanaethau cymorth a gynigir, gan gynnwys cymorth ariannol.

4.3 Ceir dyletswydd statudol i gynnal gwiriadau uwch y Swyddfa Cofnodion Troseddol ar ddarpar Warcheidwaid Arbennig ac unrhyw oedolion eraill ar yr aelwyd yn unol â Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) (Diwygio) 2018.

4.4 Er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r safonau arfer da a nodir yn y canllawiau statudol, y dylid cyfeirio atynt, dylai'r gweithiwr cymdeithasol sy'n paratoi'r adroddiad ar gyfer y llys feddu ar gymwysterau a phrofiad addas. Fodd bynnag, lle na ellir cyflawni hyn, bydd gweithwyr cymdeithasol nad oes ganddynt brofiad addas yn cael eu goruchwylio gan rywun a chanddo'r profiad hwnnw.

4.5 Pan fydd yr awdurdod lleol yn derbyn rhybudd naill ai gan yr ymgeisydd neu'r llys, mae'n rhaid iddo anfon gwybodaeth ysgrifenedig at y darpar Warcheidwad Arbennig a rhieni'r plentyn, yn nodi'r camau y mae'n cynnig eu cymryd er mwyn llunio'r adroddiad.

4.6 Pan ddaw cais i law am Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig ar gyfer plentyn a chanddo Weithiwr Cymdeithasol penodol o fewn yr awdurdod lleol, bydd yn rhaid

cynnal cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Gweithwyr Cymdeithasol i sicrhau gwybodaeth manwl gywir a dadansoddi cadarn.

## 5. Ceisiadau gwarcheidiaeth arbennig yng nghyd-destun cynllunio sefydlogrwydd i blant sy'n derbyn gofal

5.1 Pan fydd yr awdurdod lleol yn derbyn hysbysiad o fwriad i wneud cais am Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig mewn perthynas â phlentyn sy'n derbyn gofal,dylid hysbysu'r Swyddog Adolygu Annibynnol (SAA) ar y cyfle cyntaf a thrafod y cais yn Adolygiad Derbyn Gofal y plentyn.

5.2 Bydd yr awdurdod lleol yn ystyried hysbysiadau gan ofalwyr cymwys a allai fod eisiau gwneud cais am Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig ar sail y rhestr gwirio lles yn Neddf Mabwysiadu a Phlant 2002. Lles y plentyn fydd yr ystyriaeth bwysicaf. Rhoddir ystyriaeth lawn i safbwyntiau a dymuniadau'r plentyn a'r gofalwyr, ac i addasrwydd y gofalwyr, gan gynnwys a ydynt yn deall eu rolau fel Gwarcheidwaid arbennig yn llawn. Pan na fydd y plentyn yn derbyn gofal mwyach yn sgil gwneud Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig, mae'n rhaid i'r ymgeiswyr ddeall yn llawn y byddant yn cymryd cyfrifoldeb dros fagwraeth y plentyn, efallai heb yr un lefel o ymglymiad gan yr awdurdod lleol. Dylai dogfennau cynllunio sefydlogrwydd ac/neu gofnodion achos adlewyrchu unrhyw drafodaethau/gytundebau â'r Prif Swyddog neu'r Rheolwr Grŵp perthnasol lle rhoddwyd cyngor cyfreithiol annibynnol i'r rhieni maeth.

5.4 Bydd y darpar ymgeiswyr yn cael gwybod am rôl yr awdurdod lleol o ran adrodd a gwneud argymhellion i'r llys, gan gynnwys ei ddyletswydd i ystyried ac adrodd ar yr opsiynau eraill y gallai'r llys fod am eu hystyried.

5.5 Am wybodaeth yn gysylltiedig â chymorth ariannol i Warcheidwaid Arbennig, gweler Polisi Cymorth Ariannol Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig CBSPO.

## 6. Ceisiadau gwarcheidiaeth arbennig yng nghyd-destun cynllunio sefydlogrwydd i blant nad ydynt yn derbyn gofal

6.1 Os nad yw'r plentyn yn derbyn gofal, yr un yw'r cyfrifoldeb i'w awdurdod lleol adrodd wrth y llys ac asesu ei argymhellion yn ofalus. Yn yr un modd â phlentyn sy'n derbyn gofal, gwneir pob ymdrech i ystyried yn llawn gyda'r darpar ymgeiswyr a'r plentyn y rhesymau dros wneud cais, a yw'n ddoeth cyflwyno cais o'r fath, a pha opsiynau eraill a allai fod ar gael. Bydd y darpar ymgeiswyr yn cael gwybod am rôl yr awdurdod lleol o ran adrodd a gwneud argymhellion i'r llys, gan gynnwys ei ddyletswydd i ystyried ac adrodd ar yr opsiynau eraill y gallai'r llys fod am eu hystyried.

## 7. Gwasanaethau Cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig

7.1 Mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i asesu'r angen am wasanaethau cymorth a darparu'r gwasanaethau hynny i gefnogi trefniadau Gwarcheidiaeth Arbennig. Nid yw asesiad o'r angen am wasanaeth penodol (bod hwnnw'n ariannol neu fel arall) yn arwain yn syth at ddarparu'r gwasanaeth hwnnw.

7.2 Mae *Canllaw ar gyfer Cynnig Cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig yng Nghymru* 2020 (AFA) yn casglu canllawiau statudol ynghyd yn gysylltiedig â gofynion gwasanaethau cymorth fel yr amlinellwyd yn Neddf Plant 1989, Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd yn 2018) a'r Cod Ymarfer ar weithredu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn cysylltiad â Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig 2018. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Lleol wneud trefniadau i ddarparu'r gwasanaethau canlynol:

- Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (gan gynnwys gwybodaeth ar y we i'r plentyn/unigolyn ifanc; darpar Warcheidwaid Arbennig)
- Cymorth Ariannol
- Cymorth cymheiriaid
- Cyswllt
- Gwasanaethau therapiwtig
- Cymorth i hyrwyddo sefydlogrwydd mewn perthynas
- Cyfryngu

7.3 Efallai y bydd yr asesiad wedi'i gyfyngu i'r angen am wasanaeth cymorth neilltuol i Warcheidwad Arbennig os yw'r sawl sy'n gwneud cais am yr asesiad wedi gofyn am wasanaeth penodol, neu os yw'n ymddangos i'r awdurdod lleol y gellir asesu anghenion yr unigolyn yn ddigonol drwy ei gyfeirio i sylw gwasanaeth cymorth penodol. Fodd bynnag, dylid ehangu'r asesiad os daw'n amlwg bod anghenion cymorth ychwanegol i'w bodloni. Does dim angen i'r awdurdod lleol baratoi cynllun gwasanaethau cymorth os yw gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig yn cael eu darparu untro yn unig. Yn yr achos hwnnw rhoddir hysbysiad a fydd yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol.

7.4 Mae'n bwysig cydnabod y gall tai, addysg ac iechyd chwarae rhan bwysig wrth asesu anghenion teuluoedd Gwarcheidiaeth Arbennig, ond mae'n bosibl na fydd anghenion a nodir o dan y penawdau hyn ohonynt eu hunain yn arwain at wasanaeth cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig.

7.5 Bydd gweithiwr cymdeithasol y plentyn, sy'n adnabod y plentyn, yn datblygu'r cynllun cymorth ar gyfer Gwarcheidwad Arbennig plentyn, ar y cyd â'r gweithiwr cymdeithasol asesu o'r Tîm Maethu ac/neu Leoli sy'n adnabod y darpar Warcheidwaid Arbennig ac sy'n arbenigo mewn adnabod y ffactorau sy'n hyrwyddo sefydlogrwydd.

7.6 Wrth baratoi'r cynllun, bydd y Gweithwyr Cymdeithasol yn ymgynghori â'r sawl y bwriedir iddo dderbyn y gwasanaethau cymorth, neu os yw'r derbynnydd yn blentyn nad yw'n ddigon hen neu heb ddealltwriaeth ddigonol, gyda'r Gwarcheidwad Arbennig neu oedolyn priodol arall. Os oes angen i'r Bwrdd Iechyd Lleol neu asiantaethau partner eraill ddarparu gwasanaethau, ymgynghorir â hwy hefyd. Os yw'r derbynnydd yn byw mewn ardal awdurdod lleol arall, gellir ymgynghori â'r awdurdod lleol hwnnw fel y bo'n briodol.

7.7 Mae'n rhaid i'r gweithwyr cymdeithasol a'r rheolwyr tîm o fewn y Timau Diogelu a Maethu neu Sefydlogrwydd perthnasol gytuno ar y cynllun cymorth ar ôl ei gwblhau. Mae'n rhaid darparu'r Cynllun Cymorth i'r darpar Warcheidwad mewn ysgrifen, ynghyd â chopi o'r asesiad a gwblhawyd ar ei gyfer, a rhoi cyfle iddo wneud sylwadau i'r awdurdod lleol os oes anghytundeb ynghylch rhai agweddau. Os na cheir unrhyw sylwadau o fewn 28 diwrnod (oni fydd angen cyfnod byrrach neu hirach oherwydd amgylchiadau neilltuol), tybir fod pawb yn gytûn ynghylch y cynnwys. Mae'n rhaid i'r darpar Warcheidwad hefyd gael cyfle i gael cyngor cyfreithiol annibynnol am yr asesiad a'r cynllun cymorth cyn gwneud unrhyw gais.

7.8 Os yw'r plentyn a drafodir yn yr asesiad yn ddigon hen ac yn meddu ar ddealltwriaeth digonol, bydd yn rhaid ei hysbysu ynghylch canlyniad yr asesiad, onid yw amgylchiadau neilltuol yr achos yn golygu y byddai gwneud hynny'n amhriodol - er enghraifft, pe gallai hynny fod yn niweidiol i les plentyn.

7.9 Os yw'r sawl y mae'r cynllun yn ei drafod yn byw mewn ardal awdurdod lleol arall, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol a baratôdd y cynllun ddarparu copi o'r cynllun i awdurdod lleol yr ardal honno, onid yw'r awdurdod o'r farn nad oes angen hynny.

7.10 Mae Rheoliad 5 o Reoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) (Diwygio) 2018 yn nodi'r rhestr o bobl a chanddynt hawl i wneud cais am asesiad ar gyfer gwasanaethau cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig. Nid oes rhaid i awdurdodau lleol ddarparu'r

gwasanaethau hyn yn uniongyrchol, ond gallant drefnu iddynt gael eu darparu mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, fel bo'n briodol.

7.11 Mae'r cod ymarfer yn gorfodi dyletswyddau ychwanegol i'r awdurdod lleol hysbysu'r rhai a restrir isod ynghylch eu hawl i wneud cais am asesiad ar gyfer gwasanaethau cymorth Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig ym mhob cam priodol, hynny yw, wrth wneud cais ac unwaith eto ar ôl i'r Gorchymyn fod mewn grym ar ôl y tair blynedd cyntaf. Mae'r rhestr yn cynnwys:

- plentyn sy'n destun Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig neu riant y plentyn hwnnw;
- plentyn y mae rhywun wedi hysbysu awdurdod lleol o'i fwriad i wneud cais am Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig ar ei gyfer, neu riant y plentyn hwnnw;
- plentyn y mae'r llys wedi gofyn am adroddiad awdurdod lleol yn ei gylch, neu riant y plentyn hwnnw;
- plentyn sy'n destun adroddiad awdurdod lleol i'r llys, neu a enwir yn yr adroddiad hwnnw;
- Gwarcheidwad Arbennig neu ddarpar Warcheidwad Arbennig;
- plentyn Gwarcheidwad Arbennig neu ddarpar Warcheidwad Arbennig;
- perthynas plentyn yn y tri phwynt bwled cyntaf, ar yr amod bod trefniadau cyswllt wedi'u sefydlu cyn gwneud cais am asesiad.

7.12 Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol fod â threfniadau ar waith i gadw cysylltiad â phlant y gwnaed Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig ar eu cyfer, yr Awdurdod Lleol gwreiddiol a'r Awdurdod Lleol lle mae'r Gwarcheidwad Arbennig a'r plentyn/plant yn byw ar ôl y tair blynedd cyntaf. Fel isafswm, dylid cysylltu â Gwarcheidwaid Arbennig o leiaf unwaith y flwyddyn - **ni ellir cyfrif yr adolygiad asesu ariannol fel y cyswllt hwn**. Caiff y Gwarcheidwad Arbennig ddewis peidio ymwneud â'r cyswllt, ond mae'n rhaid i'r ALl roi tystiolaeth fod y cyswllt blynyddol wedi'i gynnig a bod y Gwarcheidwad Arbennig naill ai wedi derbyn/gwrthod ymwneud am y tair blynedd ar ôl rhoi'r gorchymyn.

7.13 Bydd y Tîm Maethu ac/neu Leoli yn cynnal adolygiadau o gynllun cymorth y Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig, a fydd wedyn yn cydgysylltu â'r timau, yr asiantaethau neu'r gwasanaethau priodol er mwyn bodloni anghenion asesedig y teulu.

7.14 Pan ddarperir cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig yn rhan o Gynllun Gofal a Chymorth, bydd yr Adolygiad hwn yn destun y gofynion adolygu o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

## 8. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

8.1 Yn unol â Chod Ymarfer Diwygiedig Rhan 6, bydd sicrhau 'sefydlogrwydd' yn ystyriaeth allweddol o'r adeg pan fydd plentyn yn dechrau derbyn gofal, a dylai'r Cynllun Gofal a Chymorth Rhan 6 amlinellu o'r cychwyn cyntaf sut y cyflawnir hyn. Un o brif swyddogaethau'r cynllun gofal a chymorth yw sicrhau bod gan bob unigolyn ifanc gynllun ar gyfer sefydlogrwydd erbyn yr adeg pan gynhelir yr ail adolygiad o blentyn sy'n derbyn gofal.

8.2 Mae'r Cod Ymarfer yn cysylltu Gwarcheidiaeth Arbennig â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r cod ymarfer yn cynnwys tabl sy'n nodi'r cysylltiadau rhwng erthyglau CCUHP, canlyniadau llesiant cenedlaethol ac Egwyddorion "lles y plentyn" yn Neddf y Plant.

8.3 Mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol sicrhau bod dyletswyddau eiriolaeth wedi'u bodloni yng nghyswllt plant sy'n cael eu cynnwys mewn trefniant Gwarcheidiaeth Arbennig. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol hefyd sicrhau bod y Gwarcheidwad/Gwarcheidwaid Arbennig hefyd yn cael ei gyfeirio/eu cyfeirio i ffynonellau cyngor ac eiriolaeth annibynnol, fel bo'n briodol.

8.4 Pan fydd anghenion plentyn mewn trefniant Gwarcheidiaeth Arbennig yn cael eu hasesu o dan Ran 3 o'r Ddeddf, dylai'r Awdurdod Lleol hefyd asesu'r angen am wasanaethau cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig ar yr un pryd. Pan fydd gan y plentyn gynllun gofal a chymorth o dan Ran 4 o'r Ddeddf dylid cynnwys unrhyw wasanaethau cymorth Gwarcheidwad Arbennig o fewn y cynllun hwn.

## 9. Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol dros lwfansau Gwarcheidiaeth Arbennig

9.1 Ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, mae'r awdurdod lleol lle'r oeddent yn derbyn gofal ddiwethaf yn cadw'r cyfrifoldeb dros asesu a darparu gwasanaethau cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig am dair blynedd ar ôl dyddiad gwneud y gorchymyn. Ym mhob sefyllfa arall, gan gynnwys lle bo'r cyfnod cychwynnol o dair blynedd wedi dod i ben, bydd yr awdurdod lleol lle mae'r Gwarcheidwad Arbennig yn byw yn gyfrifol am asesu a darparu gwasanaethau cymorth.

9.2 Yn achos darpariaeth lwfans a gytunwyd cyn gwneud y Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig, yr awdurdod a gytunodd ar y lwfans yn wreiddiol fydd yn parhau i fod yn gyfrifol amdano, a hynny am gyfnod amhenodol.

9.3 Pan fydd y cyfnod o dair blynedd, sy'n dechrau o'r adeg pan gafodd y Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig ei wneud, bron â dod i ben, bydd yn **rhaid** i'r ALl, heb fod yn hwyrach na thri mis cyn i'r tair blynedd ddod i ben, gynnal adolygiad, hysbysu'r awdurdod lleol perthnasol am unrhyw wasanaethau y mae angen parhau i'w darparu a chyfeirio'r Gwarcheidwad Arbennig at wybodaeth, cyngor a chymorth perthnasol lleol. Mae'r cod ymarfer (pennod 11) hefyd yn gorfodi rhai dyletswyddau/canllawiau ychwanegol yn gysylltiedig â'r rheol tair blynedd ar gyfer reoli achosion:

- Os yw'r plentyn i fyw mewn ardal Awdurdod Lleol arall o ddyddiad y gorchymyn, mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol gwreiddiol hysbysu'r Awdurdod Lleol hwnnw fod Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig wedi'i wneud (11.3)
- Dylai Awdurdodau Lleol gydweithredu i sefydlu pa wasanaethau sydd i'w darparu'n lleol (er mai'r Awdurdod Lleol gwreiddiol fydd yn ariannu hyn am dair blynedd) (11.4)
- Bydd angen cytuno pwy sy'n darparu unrhyw wasanaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Rhan 4 (disgwylir y bydd yr Awdurdod Lleol gwreiddiol yn parhau i fodloni unrhyw anghenion parhaus, gan gynnwys y rheini sydd y tu hwnt i wasanaethau cymorth Gwarcheidwad Arbennig a ragnodwyd am y tair blynedd) (11.5)

## 10. Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig a Gadael Gofal

10.1 Gall plant a oedd yn derbyn gofal gan awdurdod lleol yn union cyn gwneud Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig fod yn gymwys i gael cyngor, arweiniad a chymorth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae adran 104 o Ddeddf 2014 yn diffinio chwe chategori o bobl ifanc yng nghyswllt gadael gofal, a diffinnir 'unigolyn ifanc categori 5' fel rhywun rhwng 16 a 21 sy'n destun gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig (neu a oedd yn destun gorchymyn o'r fath pan drodd yn 18), ac a oedd yn blentyn sy'n derbyn gofal yn union cyn gwneud y Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig.

10.2 Nodir dyletswyddau llawn awdurdod lleol tuag at 'unigolyn ifanc categori 5' yn adran 114 o Ddeddf 2014. Nodir mwy o fanylion yn y Cod Ymarfer sy'n gysylltiedig â Rhan 6 y Ddeddf (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n cael eu Lletya), pennod 5 ('Gadael gofal').

10.3 Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ystyried a oes angen y math o gymorth a nodir yn adran 114 ar yr unigolyn ifanc. Os yw'r awdurdod lleol yn fodlon nad oes gan y sawl a oedd yn gofalu am yr unigolyn ifanc (y gwarcheidwad arbennig neu'r cyn-warcheidwad arbennig) y cyfleusterau angenrheidiol i'w gynghori neu ymgyfeillio ag ef, bydd yn rhaid i'w awdurdod lleol gynghori ac ymgyfeillio â'r unigolyn ifanc, a'i gefnogi fel bo'r

angen drwy'r dulliau a ganlyn:

- ar ffurf da
- drwy gyfrannu at dreuliau a dynnir gan yr unigolyn ifanc wrth iddo fyw’n agos i’r man lle y bydd yn cael ei gyflogi neu’n chwilio am waith
- drwy gyfrannu at dreuliau a dynnir gan yr unigolyn ifanc wrth iddo fyw’n agos i’r lle y bydd yn derbyn addysg neu hyfforddiant
- drwy roi grant i’r unigolyn ifanc i’w alluogi i dalu treuliau sy’n gysylltiedig â’i addysg neu ei hyfforddiant
- drwy ddarparu llety, os na chaniateir i gymorth gael ei roi mewn cysylltiad â’r dulliau uchod
- mewn arian parod.

10.4 Lle bo hynny'n briodol, dylai'r awdurdod lleol ddarparu cynghorydd personol i'r unigolyn ifanc.

10.5 Gall yr awdurdod lleol hefyd roi cymorth mewn rhai amgylchiadau hyd at yr adeg pan fydd yr unigolyn ifanc yn 25 oed, os yw'n cwblhau cwrs addysg neu hyfforddiant, fel y nodir yn y cynllun a gytunwyd â'r unigolyn ifanc.

10.6 Mae'r darpariaethau hyn yn cydnabod y gallai rhai pobl ifanc a adawodd ofal o dan Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig fod yr un mor agored i niwed â phobl ifanc a adawodd ofal yn 16 neu 18, neu fod ag anghenion tebyg iawn i'r rheiny. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod y Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig yn dod i ben pan fydd yr unigolyn ifanc yn troi'n 18. Maent yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ymateb yn ddigonol i anghenion unigol y bobl ifanc hyn.

10.7 Pan fydd awdurdod lleol yn fodlon bod angen cyngor a chymorth ar 'unigolyn ifanc categori 5', mae'n rhaid iddo asesu anghenion yr unigolyn a phenderfynu sut i'w bodloni orau. Os daw'r awdurdod i'r casgliad y bydd angen cymorth ar yr unigolyn ifanc dros gyfnod o amser, dylai greu cynllun mewn partneriaeth â'r unigolyn ifanc, yn amlinellu'r gofal a'r cymorth a ddarperir. Dylai'r cynllun fod ar yr un ffurf â'r 'cynllun

llwybr' i unigolyn ifanc sy'n paratoi i adael gofal (fel y nodir ym mhennod 5 o Ran 6 y Cod Ymarfer).

10.8 Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu pobl ifanc sydd wedi gadael gofal o dan Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig fod ganddynt hawl i dderbyn asesiad am gymorth i rai sy'n gadael gofal. Mae'n arfer da gwneud hynny pan fydd y plentyn bron â throi'n 16 oed.

10.9 Dylid nodi nad yw pobl ifanc mewn trefniadau gwarcheidiaeth arbennig yn gymwys i ymrwymo i drefniadau byw ôl-18 o dan adran 108 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y cynllun 'Pan fydda i'n barod'), hyd yn oed os ydyn nhw'n byw gyda'u cyn-rieni maeth. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod rhieni maeth sy'n ystyried tro'n warcheidwaid arbennig, a'r plant a'r bobl ifanc a leolir gyda hwy, yn llwyr ymwybodol o hyn cyn gwneud gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig. Lle bo'n briodol, dylai awdurdodau lleol ystyried ffyrdd eraill o roi cymorth i blant a oedd yn derbyn gofal ac sy'n dymuno parhau i fyw gyda'u gwarcheidwaid arbennig ar ôl iddynt droi'n 18, ee llety gyda chymorth.

10.10 Mae Rheoliad 13 o Reoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) 2005 yn darparu mai'r awdurdod lleol perthnasol mewn perthynas â darparu cyngor a chymorth yw'r awdurdod a ofalodd am y plentyn ddiwethaf.

10.11 Efallai y ceir adegau pan na fydd hi'n glir pa awdurdod sy'n gyfrifol am roi cyngor a chymorth ynghylch gwarcheidiaeth arbennig - er enghraifft os symudodd y plentyn rhwng lleoliadau mewn gwahanol ardaloedd awdurdod lleol. Mae Rheoliad 13 o Reoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) 2005 yn nodi mai'r awdurdod perthnasol fydd yr awdurdod lleol fu'n gofalu am yr unigolyn ddiwethaf. Mae trefniadau tebyg yn berthnasol i bobl ifanc a oedd gynt yn derbyn gofal gan awdurdod lleol yn Lloegr. Bryd hynny, yr awdurdod perthnasol i ddibenion darparu cyngor a chymorth fydd yr awdurdod lleol yn Lloegr fu'n gofalu am yr unigolyn ifanc ddiwethaf.

## 11. Cwynion a Sylwadau

11.1 Mae'n rhaid ymdrin â chwynion a sylwadau ynghylch gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig yn unol â gweithdrefnau cwyno'r awdurdod lleol.

11.2 Mae Rheoliad 14 o Reoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) 2005 yn nodi y gellir gwneud cwynion a sylwadau yn arbennig mewn perthynas â'r gwasanaethau a ganlyn:

- cymorth ariannol i warcheidwaid arbennig
- grwpiau cymorth i blant
- cymorth o ran cyswllt
- gwasanaethau therapiwtig i blant
- cymorth i sicrhau parhad y berthynas rhwng y plentyn a'i warcheidwad arbennig neu ddarpar warcheidwad arbennig.

11.3 Mae'n rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod plant sy'n destun trefniadau gwarcheidiaeth arbennig, gwarcheidwaid arbennig a darpar warcheidwaid arbennig, a rhieni, dderbyn gwybodaeth ynghylch sut i wneud cwyn a chyflwyno sylwadau.

## 12. Atodiadau:

**Atodiad 1 - Cynllun Cymorth Gwag ar gyfer Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig**

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**
**Gwasanaethau Plant**

**CYNLLUN CYMORTH GWARCHEIDIAETH ARBENNIG**

Enw'r Plentyn:

Dyddiad Geni:

Yr Awdurdod Lleol sy'n Lleoli: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Enw'r Teulu:

Awdurdod Lleol: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Yr Awdurdod Lleol lle mae'r Teulu'n Byw:

Mae'r cynllun cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig yn seiliedig ar yr anghenion cymorth a aseswyd ar gyfer y plentyn, y Gwarcheidwaid Arbennig a'r perthnasau genedigol.

Dyddiad Cwblhau'r Cynllun:

**GWEITHIWR UNIGOL SY'N GYFRIFOL AM GYDGYSYLLTU a MONITRO DARPARIAETH Y GWASANAETHAU YN Y CYNLLUN**

Enw:

Asiantaeth: **Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**
**Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB**

Ffôn: 01656

E-bost:

**IECHYD**(gan gynnwys unrhyw anghenion arbennig a allai fod gan blentyn anabl)

| | |
|---|---|
| **Anghenion Cymorth y Plentyn a'r Gwarcheidwad Arbennig** | |
| **Gwasanaethau i'w Darparu** | |
| **Y Sawl/Yr Asiantaeth sy'n gyfrifol** A oes cytundeb wedi'i roi i ddarparu'r gwasanaethau angenrheidiol yn lleol? | |
| **Mynychder, Hyd a Dyddiad Dechrau** | |
| **Canlyniad a Gynllunnir a Chynlluniau ar gyfer Adolygu** | |

**ADDYSG**

| | |
|---|---|
| **Anghenion Cymorth y Plentyn a'r Gwarcheidwad Arbennig** | |
| **Gwasanaethau i'w Darparu** | |
| **Y Sawl/Yr Asiantaeth sy'n gyfrifol** A yw'r Adran Addysg leol wedi cytuno i ddarparu'r gwasanaethau angenrheidiol? | |
| **Mynychder, Hyd a Dyddiad Dechrau** | |
| **Canlyniad a Gynllunnir a Chynlluniau ar gyfer Adolygu** | |

**DATBLYGIAD EMOSIYNOL ac YMDDYGIADOL**

| | |
|---|---|
| **Anghenion Cymorth y Plentyn a'r Gwarcheidwad Arbennig** Manylwch ar unrhyw angen am therapi neu gwnsela. | |
| **Gwasanaethau i'w Darparu** | |
| **Y Sawl/Yr Asiantaeth sy'n gyfrifol** A oes cytundeb wedi'i roi i ddarparu'r gwasanaethau angenrheidiol yn lleol? | |
| **Mynychder, Hyd a Dyddiad Dechrau** | |

| | |
|---|---|
| **Anghenion Cymorth y Plentyn a'r Gwarcheidwad Arbennig** Manylwch ar unrhyw angen am therapi neu gwnsela. | |
| **Canlyniad a Gynllunnir a Chynlluniau ar gyfer Adolygu** | |

## HUNANIAETH

| | |
|---|---|
| **Anghenion Cymorth y Plentyn a'r Gwarcheidwad Arbennig** | |
| **Gwasanaethau i'w Darparu** | |
| **Y Sawl/Yr Asiantaeth sy'n gyfrifol** | |
| **Mynychder, Hyd a Dyddiad Dechrau** | |
| **Canlyniad a Gynllunnir a Chynlluniau ar gyfer Adolygu** | |

## TEULU a PHERTHNASOEDD CYMDEITHASOL

| | |
|---|---|
| **Anghenion Cymorth y Plentyn a'r Gwarcheidwaid Arbennig** | |
| **Gwasanaethau i'w Darparu** | |
| **Y Sawl/Yr Asiantaeth sy'n gyfrifol** | |
| **Mynychder, Hyd a Dyddiad Dechrau** | |
| **Canlyniad a Gynllunnir a Chynlluniau ar gyfer Adolygu** | |

## CYFLWYNIAD CYMDEITHASOL

| | |
|---|---|
| **Anghenion Cymorth y Plentyn a'r Gwarcheidwad Arbennig** | |
| **Gwasanaethau i'w Darparu** | |
| **Y Sawl/Yr Asiantaeth sy'n gyfrifol** | |
| **Mynychder, Hyd a Dyddiad Dechrau** | |
| **Canlyniad a Gynllunnir a Chynlluniau ar gyfer Adolygu** | |

## SGILIAU HUNANOFAL

| | |
|---|---|
| **Anghenion Cymorth y Plentyn a'r Gwarcheidwad Arbennig** | |
| **Gwasanaethau i'w Darparu** | |
| **Y Sawl/Yr Asiantaeth sy'n gyfrifol** | |
| **Mynychder, Hyd a Dyddiad Dechrau** | |
| **Canlyniad a Gynllunnir a Chynlluniau ar gyfer Adolygu** | |

## CYSWLLT: Trefniadau a gynllunnir ar ôl rhoi Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig.

| | |
|---|---|
| **Person: enw a pherthynas â'r plentyn** | |
| **Math**<br>ee blwch llythyrau, wyneb yn wyneb | |
| **Mynychder, Hyd, Lleoliad a Dyddiad Dechrau** | |
| **A fydd angen goruchwylio'r cyswllt?** | |
| **Pwy fydd yn gwneud hyn?** | |
| **Pwrpas y cyswllt hwn.** | |

| | |
|---|---|
| **Person: enw a pherthynas â'r plentyn** | |
| **Math**<br>ee blwch llythyrau, wyneb yn wyneb | |
| **Mynychder, Hyd, Lleoliad a Dyddiad Dechrau** | |
| **A fydd angen goruchwylio'r cyswllt?** | |
| **Pwy fydd yn gwneud hyn?** | |
| **Pwrpas y cyswllt hwn.** | |

## TREFNIADAU CYMORTH: manylwch ar hyn mewn perthynas â phob trefniant cyswllt os oes angen

| | |
|---|---|
| **Anghenion Cymorth y Plentyn a'r Gwarcheidwad Arbennig** | |
| **Gwasanaethau i'w Darparu** | |
| **Y Sawl/Yr Asiantaeth sy'n gyfrifol** | |
| **Cynlluniau i Adolygu**<br>A oes cytundeb cyswllt ysgrifenedig? Sut y bydd hyn yn cael ei adolygu? | |

Ychwanegwch aelodau pellach o'r teulu yn ôl yr angen.

## ARIANNOL ac YMARFEROL

| | |
|---|---|
| **Anghenion Cymorth y Plentyn a'r Gwarcheidwad Arbennig**<br>(ee. i gyrraedd sesiynau cyswllt, i ariannu sesiynau therapi, ac ati) | |
| **Gwasanaethau i'w Darparu**<br>gallai'r rhain gynnwys:<br>• cyfandaliad unigol<br>• cyfres o gyfandaliadau<br>• taliad parhaus rheolaidd neu addasiadau i'r cartref | |
| **Y Sawl/Yr Asiantaeth sy'n gyfrifol**<br>A oes cytundeb wedi'i roi i ddarparu'r gwasanaethau angenrheidiol yn lleol? | |
| **Mynychder, Hyd a Dyddiad Dechrau** | |
| **Canlyniad a Gynllunnir a Chynlluniau ar gyfer Adolygu** | |

## GWASANAETHAU CYMORTH SYLFAENOL

| | **Arall** |
|---|---|
| Pwynt cyswllt ar gael am y tymor hir am gyngor a gwybodaeth, ac i gyfeirio ymlaen fel bo'r angen. | |
| Cyfarfodydd grŵp gyda Gwarcheidwaid eraill | |
| Gweithdai/hyfforddiant rheolaidd ee, ymdrin ag ymddygiad anodd ac ati. | |

## LLOFNODION

| | Llofnod | Printiwch eich Enw | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Plentyn / Unigolyn Ifanc(lle bo'n briodol) | | | |
| Gweithiwr Cymdeithasol Diogelu | | | |
| Rheolwr Tîm Diogelu | | | |
| Rheolwr Tîm Maethu | | | |
| Gwarcheidwad Arbennig | | | |
| Gwarcheidwad Arbennig | | | |
| Gweithiwr Cydgysylltu (wedi'i restru ar y dudalen flaen os nad yw ymhlith yr uchod) | | | |

**Atodiad 2 - Adolygiad Gwag o Cynllun Cymorth ar gyfer Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig**

| | | |
|---|---|---|
| | **Gwasanaethau Diogelu a Chymorth i Deuluoedd**<br>**Y Gyfarwyddiaeth Plant** | |
| | **ADOLYGIAD CYNLLLUN CYMORTH GORCHYMYN GWARCHEIDIAETH ARBENNIG** | RHIF CCIS |

**MANYLION Y GOFALWR**

| | |
|---|---|
| **Enw Llawn** | |
| **Cyfeiriad** | |
| **Ffôn Cartref** | |
| **Symudol** | |

**MANYLION Y PLENTYN / UNIGOLYN IFANC**

| Enw Cyntaf | Cyfenw | Dyddiad Geni | Rhyw |
|---|---|---|---|
| | | | |

**Plant y Gofalwr ei hun (sy'n byw gartref)**

| |
|---|
| |

**Dyddiad Rhoi'r Gorchymyn**

| DD | MM | BBBB |
|---|---|---|

**Dyddiad yr Adolygiad Hwn**

| DD | MM | BBBB |
|---|---|---|

**Dyddiad yr Adolygiad Diwethaf**

| DD | MM | BBBB |
|---|---|---|

## CANLLAWIAU AR GYFER LLENWI'R FFURFLEN HON

Pwrpas yr adrannau isod yw rhoi cyfle ichi ystyried pryderon neu anawsterau y gallech fod wedi'u profi dros y flwyddyn ddiwethaf. Efallai fod y problemau wedi'u datrys ond eich bod yn dymuno gwneud nodyn byr ohonynt er mwyn inni allu ystyried a oes unrhyw beth y gallem ei wneud i helpu os bydd problemau'n codi yn y dyfodol. Bwriedir i chi ddefnyddio'r adrannau unigol ar y ffurflen i gyfeirio'n uniongyrchol at y gofal yr ydych yn ei ddarparu i'r plant/plentyn.

Dyma eich cyfle i gyfrannu at eich adolygiad blynyddol. Does dim disgwyl ichi lenwi'r ffurflen adolygu, ond os na fyddwch yn llenwi'r ffurflen, neu rannau ohoni, a'i chyflwyno inni, byddwn yn tybio nad oes angen cymorth arnoch ar hyn o bryd. Beth bynnag a wnewch, cofiwch y byddwch yn dal i allu cysylltu â'r Tîm Sefydlogrwydd ar unrhyw bryd ar: (01656) 642524 neu (01656) 662238

### Iechyd

Twf a datblygiad yn ogystal â lles corfforol a meddyliol - diet, ymarfer corff, imiwneiddio (lle bo'n briodol), y deintydd a'r optegydd ac, yn achos plant hŷn, cyngor a gwybodaeth briodol am faterion fel addysg rhyw a chamddefnyddio sylweddau.

### Addysg

Yn ystyried addysg o enedigaeth, ac yn cynnwys cyfleoedd i chwarae, mynediad at lyfrau, cynnydd a chyflawniadau yn yr ysgol, ac unrhyw anghenion addysgol arbennig.

**Datblygiad Emosiynol ac Ymddygiadol**

Gan gynnwys ansawdd ymlyniadau a pherthnasoedd ag aelodau o'r teulu a thu hwnt. Dylid ystyried y canlynol hefyd: ymddygiadau cyflwyno, ymateb plant/pobl ifanc i straen a graddau eu hunanreolaeth, a sut mae'r plentyn yn dangos teimladau a gweithredoedd ee, Dicter, ymddygiad ymosodol, troi'n fewnblyg, yn dawel, cynhyrfu ac ati.

| |
|---|
| |

**Hunaniaeth**

Sut mae'r plentyn/unigolyn ifanc yn ei ystyried ei hun yn rhywun o werth, gan gynnwys ei hunan-dyb a'i alluoedd, ei hunan-barch a'i ymdeimlad o berthyn i'r teulu a'r gymuned ehangach.

| |
|---|
| |

**Perthnasoedd Teuluol a Chymdeithasol**

A yw'r plentyn/unigolyn ifanc wedi sefydlu perthynas gadarn a chariadus gyda chi, ei rieni a'i frodyr neu chwiorydd? A yw'r plentyn/unigolyn ifanc wedi meithrin cyfeillgarwch â phlant/pobl ifanc eraill o oedran priodol?

| |
|---|
| |

**Sgiliau Hunanofal**

Gan gynnwys sgiliau ymarferol cynnar fel gwisgo/bwydo, a yw'r plentyn/unigolyn ifanc wedi magu hyder a sgiliau i gyflawni gweithgareddau oddi wrth y teulu. I blant hŷn, y gallu i ddysgu sgiliau yn barod ar gyfer annibyniaeth.

| |
|---|
| |

**Trefniadau Cyswllt**

Unrhyw faterion sy'n codi ynghylch cyswllt, ee, mynychder y cyswllt, pwy sydd â chyswllt â'r plentyn, ystyried ymddygiad cyn ac ar ôl y cyswllt ac ati.

**Cymorth**

Fel gwarcheidwaid arbennig, ydych chi'n teimlo bod gennych y cymorth sydd ei angen arnoch i ofalu am y plentyn/unigolyn ifanc. Ydych chi wedi ystyried pa gymorth ymarferol neu emosiynol y byddech chi'n elwa arno yn eich rôl?

**TREFNIADAU ARIANNOL**

**A yw'r taliadau ariannol wedi'u sicrhau am ddwy flynedd.**

**Dyddiad yr adolygiad ariannol diwethaf**

DD MM BBBB

**Canlyniad yr adolygiad ariannol**

**Gwybodaeth Ychwanegol**

**CYMORTH YR AWDURDOD LLEOL**

**Dyddiad Cynllun Cymorth yr ALl**

DD MM BBBB

**Wedi'i atodi**

**Os ddim, lle gellir cael hyd i'r Cynllun Cymorth?**

**A ofynnwyd am unrhyw gymorth/ymyrraeth neu gyngor oddi wrth yr ALl ers yr adolygiad blynyddol diwethaf?**

**Natur y cyswllt â'r ALl**

**UNRHYW ANGHENION YCHWANEGOL**

Hyfforddiant/pryderon/ofnau/iechyd/addysg ac ati

**BARN ERAILL O FEWN Y CARTREF (gan gynnwys plant y Gwarcheidwad ei hun)**

**CAIS WEDI'I WNEUD AM YMWELIAD Â'R CARTREF**

**Y sawl sy'n bresennol** (pwy yr hoffech iddynt fod yn bresennol yn yr adolygiad), ee, Athro, Ymwelydd Iechyd, aelod o'r teulu, unigolyn ifanc.

| |
|---|
| |

| | Enw | Llofnod | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| **Gweithiwr Cymdeithasol** | | | |
| **Gwarcheidwad/Gwarcheidwaid Arbennig** | | | |
| **Rheolwr Tîm** | | | |